# KAY TYLER

Kay Tyler yw calon Clwb Hoci i Fenywod Cwm Rhondda, a hithau wedi bod ynghlwm â'r clwb ers iddo gael ei sefydlu ym 1980. Ymunodd Kay â'r clwb yn fuan ar ôl ei sefydlu, ac mae hi wedi treulio dros 40 o flynyddoedd yn chwarae neu'n gwirfoddoli gyda'r clwb, gan roi oriau di-rif i sicrhau bod y clwb yn ffynnu. Ar hyn o bryd, Kay yw Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gemau'rClwb. Mae hi'n trefnu'r holl ddyfarnwyr, yn ogystal â hyfforddi a rheoli'r timau iau. Kay oedd Swyddog Diogelu'r clwb tan yn ddiweddar, dros y blynyddoedd mae hi wedi cyflawni rôl rheolwr y trydydd tîm pan fo angen.

Kay yw'r glud sy'n dal popeth at ei gilydd, ond dyw hi byth yn gofyn am gydnabyddiaeth am ei hymdrechion. Mae hi'n dal i chwarae yn rhan o'r tîm cyntaf yn ei chwedegau, mae hi hefyd yn cynrychioli Meistri Cymru. Os nad yw hi'n chwarae'r gêm, mae Kay yn cynnal gwersylloedd hoci, sesiynau blasu mewn ysgolion, yn gwneud cais am gyllid, ac yn helpu i lansio'r rhaglen hoci dan do, 'Dychwelyd i Hoci', a chynghrair yr haf — gan sicrhau bod dyfodol y clwb mor gryf â'i orffennol.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## IONAWR 2026